Emma Sandrey

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Dylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr gan fy mod yn feddylwraig annibynnol. Rwy'n dod i fy nghasgliadau fy hun. Rwy'n barod i herio cynghreiriaid ynghyd â'r rheini yr wyf yn anghytuno â nhw. Pryd bynnag y byddaf, drwy fy etholaeth flaenorol, yn atebol i aelodau eich mudiad, bydd yn bwysig fy mod yn gallu cyfiawnhau'r penderfyniadau rwy'n eu gwneud ac yn gallu dangos sut rwyf wedi dod i'r casgliadau hynny. Mae hyn yn hanfodol fel y gall pobl fod yn dawel eu meddwl bod ystyriaeth wirioneddol, heb ddylanwad gormodol, wedi'i rhoi i'r mater.

Credaf fod y rhan fwyaf o bobl eisiau gwneud gwahaniaeth positif i'w cymunedau, ond yn anffodus, nid yw llawer yn gwybod ble i ddechrau. Nawr yw'r cyfle i harneisio'r awydd hwnnw, i greu camau gweithredu sylweddol sy'n cael effaith, wrth i bobl ailddarganfod eu rhyddid a'u pŵer. Un o'r ffyrdd o wneud hyn yw galluogi a grymuso mudiadau gwirfoddol i ddod â phobl ynghyd i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd. Fel unigolion, dim ond hyn a hyn y gallwn ei wneud, ond gyda'n gilydd, rydym yn gryfach, yn enwedig pan fydd argyfwng. Dyna'r math o ddiwylliant ac agwedd rwyf eisiau eu hadeiladu o fewn CGGC, fel ymddiriedolwr ar y bwrdd.